# ASESIAD EFFAITH INTEGREDIG LLYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **Teitl y cynnig:** | **Cronfa Twf Lleol** |
| **Swyddogl(ion) sy'n cwblhau'r Asesiad Effaith Integredig (enw(au) ac enw'r tîm):** | **Benedict Watson, Cheryl Jones**<br><br>**Y Tîm Buddsoddi Rhanbarthol** |
| **Adran:** | **Strategaeth Economaidd a Rheoleiddio** |
| **Pennaeth Is-adran/SRO (enw):** | **Tom Smithson** |
| **Ysgrifennydd Cabinet/Gweinidog cyfrifol:** | **Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, yr Economi a Chynllunio** |
| **Dyddiad Dechrau:** | **01/04/2026** |

Adran 1. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried a pham? ........ 4

Adran 8. Casgliadau ........ 8

Asesiadau Effaith Llawn ........ 16

A. ASESIAD O'R EFFAITH AR HAWLIAU PLANT ........ 16

B. ASESIAD O'R EFFAITH AR Y GYMRAEG ........ 26

## Tymor hir

Mae'r Gronfa Twf Lleol (LGF) yn rhaglen a ariennir gan Lywodraeth y DU sy'n darparu £547 miliwn dros dair blynedd (Ebrill 2026 i Fawrth 2029) i gefnogi datblygiad economaidd ledled Cymru. Mae wedi'i gynllunio yn fframwaith buddsoddi sefydlog, a dros nifer o flynyddoedd sy'n cefnogi twf economaidd cynaliadwy, seiliedig ar leoedd.

Mae tueddiadau hirdymor sy'n debygol o effeithio ar Gymru yn cynnwys anghydraddoldebau rhanbarthol parhaus, twf cynhyrchiant anwastad, newid demograffig, ymfudo allan—yn enwedig ymhlith pobl ifanc—a phwysau ar gapasiti darparu lleol. Mae'r heriau hyn yn arbennig o ddwys mewn ardaloedd gwledig, arfordirol, ôl-ddiwydiannol a Chymraeg eu hiaith, lle gall cysylltedd gwannach, mynediad cyfyngedig i gyflogaeth sgiliau uwch ac economïau lleol cyfyngedig danseilio gwytnwch hirdymor a chynaliadwyedd cymunedol.

Bwriad y LGF yw ymateb i'r tueddiadau hyn drwy gryfhau sylfeini economaidd cymunedau ledled Cymru. Trwy fuddsoddi mewn sgiliau, llwybrau cyflogaeth, datblygu busnes a seilwaith lleol, nod y Gronfa yw cefnogi gwaith teg, gwella marchnadoedd llafur lleol a helpu cymunedau i addasu i newid economaidd, technolegol ac amgylcheddol. Gall gwell cysylltedd ffisegol a digidol gefnogi mynediad at gyflogaeth, addysg a gwasanaethau, yn enwedig mewn ardaloedd mwy gwledig ac anghysbell.

I gymunedau Cymraeg, gallai bwriad hirdymor y LGF fod yn arwyddocaol. Mae tystiolaeth o'r ymgynghoriad a'r dadansoddiad polisi yn tynnu sylw’n gyson at y cysylltiad rhwng bywiogrwydd economaidd, cynaliadwyedd cymunedol a bywiogrwydd ieithyddol. Mae mynediad cyfyngedig at gyflogaeth, tai fforddiadwy a gwasanaethau hanfodol yn cynyddu'r risg o ymfudo allan ac yn lleihau'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn bywyd pob dydd. Trwy gefnogi gweithgarwch economaidd sydd wedi'i wreiddio'n lleol a chyflogaeth fedrus, gall y LGF gyfrannu at nodau hirdymor Cymraeg 2050 ac at greu'r amodau lle gall y Gymraeg ffynnu.

## Atal

Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'r LGF yn mabwysiadu dull ataliol sy'n ceisio cyfrannu at ymdrechion ehangach i fynd i'r afael ag achosion strwythurol sylfaenol anweithgarwch economaidd, cynhyrchiant isel, eithrio cymdeithasol ac anfantais ar sail lle, yn hytrach na chanolbwyntio ar allbynnau tymor byr yn unig.

Trwy dargedu buddsoddiad mewn ardaloedd a grwpiau sy'n wynebu anfantais barhaus, gall y Gronfa gefnogi ymyrraeth gynnar i dorri cylchoedd negyddol megis tlodi, deilliannau iechyd gwael a diweithdra hirdymor. Gall buddsoddi mewn sgiliau, cyflogadwyedd a

chymorth busnes wella mynediad at gyfleoedd gwaith teg a dilyniant, gan leihau dibyniaeth hirdymor ar wasanaethau cyhoeddus. Gall buddsoddi mewn seilwaith lleol, cludiant a chysylltedd digidol helpu i leihau ynysu, gwella mynediad at wasanaethau a chefnogi cyfranogiad mewn addysg, cyflogaeth a bywyd cymunedol.

Mae cynaliadwyedd amgylcheddol wedi'i ymgorffori ar draws y rhaglen, gyda disgwyliad bod gweithgarwch a ariennir yn cefnogi datblygu carbon isel, effeithlonrwydd adnoddau a gwytnwch o ran yr hinsawdd ar sail drawsbynciol. Gall atebion sy'n seiliedig ar natur, effeithlonrwydd ynni a chludiant cynaliadwy ddarparu manteision ataliol trwy wella ansawdd yr amgylchedd, lleihau allyriadau, mynd i'r afael â thlodi tanwydd a chryfhau gwytnwch i risgiau hinsawdd—yn enwedig mewn cymunedau gwledig ac arfordirol.

Yn gyffredinol, mae'r LGF wedi'i chynllunio i gefnogi'r newid amodau sy'n gyrru anghydraddoldeb ac anfantais hirdymor, gan sicrhau bod datblygiad economaidd yn cyfrannu'n gadarnhaol at lesiant cymdeithasol, diwylliannol, ieithyddol ac amgylcheddol.

## Integreiddio

Mae'r LGF wedi'i chynllunio i integreiddio â blaenoriaethau a dyletswyddau statudol presennol Llywodraeth Cymru, gan gynnwys y Rhaglen Lywodraethu, amcanion llesiant cenedlaethol, cynlluniau llesiant rhanbarthol a rhwymedigaethau o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Bydd disgwyl i gynlluniau buddsoddi rhanbarthol a ddatblygwyd gan Gyd-bwyllgorau Corfforedig (CJCs) a phartneriaid ddangos eu bod yn cyd-fynd â:

- blaenoriaethau datblygiad economaidd a sgiliau
- amcanion datgarboneiddio ac amgylcheddol
- ystyriaethau cydraddoldeb a dyletswydd gymdeithasol economaidd
- hyrwyddo a hwyluso’r Gymraeg pan fo’n berthnasol

Mae'r dull integredig hwn yn cefnogi cyflawni buddion lluosog o fuddsoddiadau unigol. Er enghraifft, gall prosiectau trafnidiaeth neu seilwaith digidol wella mynediad at gyflogaeth a gwasanaethau, cefnogi ffyrdd iachach o fyw, cryfhau cydlyniant cymunedol a galluogi mwy o gyfranogiad mewn gweithgareddau diwylliannol a Chymraeg.

Mae'r cynnig yn cydnabod nad yw effeithiau cadarnhaol—yn enwedig ar gydraddoldeb a'r Gymraeg—yn awtomatig. Mae integreiddio effeithiol yn dibynnu ar ystyried effeithiau'n gynnar, dylunio gwasanaethau dwyieithog, capasiti'r gweithlu a chydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Felly, mae'r LGF yn gosod disgwyliadau o ran cynllunio rhanbarthol a dylunio prosiectau i sicrhau bod yr ystyriaethau hyn wedi eu hymgorffori o'r cychwyn cyntaf yn hytrach na'u trin yn ychwanegiadau.

## Cydweithredu

Mae datblygiad y LGF wedi'i lywio gan gydweithrediad helaeth ar draws Llywodraeth Cymru a gyda phartneriaid allanol. Mae'r ymgysylltu wedi cynnwys awdurdodau lleol, CJCs, busnesau, sefydliadau'r trydydd sector, darparwyr addysg a thimau polisi, gan gynnwys y rhai sy'n gyfrifol am y Gymraeg.

Darparodd ymgynghoriad cenedlaethol a digwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid rhanbarthol dystiolaeth ar anghenion lleol, risgiau cyflawni a chyfleoedd. Pwysleisiodd rhanddeiliaid yn gyson bwysigrwydd:

- gwneud penderfyniadauseiliedig ar leoedd
- parhad gwasanaethau wrth drosglwyddo o raglenni ariannu blaenorol
- hyblygrwydd i adlewyrchu cyd-destunau economaidd, cymdeithasol ac ieithyddol lleol
- rhan ystyrlon i gymunedau a phartneriaid darparu

Mae'r cydweithrediad hwn wedi llunio dyluniad y LGF yn uniongyrchol, gan gynnwys cyflwyno blwyddyn bontio, y pwyslais ar gynllunio rhanbarthol hyblyg a'r ffocws ar ddeiliannau tymor hir yn hytrach nag allbynnau tymor byr.

## Cymryd rhan

Mae pobl a sefydliadau y mae’r LGF yn debygol o effeithio arnynt wedi bod yn rhan o ymgynghoriad cenedlaethol a chyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid rhanbarthol. Daeth y rhain ag awdurdodau lleol, busnesau, sefydliadau'r trydydd sector, darparwyr sgiliau ac addysg, cyrff cymunedol a phartneriaid yn y sector cyhoeddus at ei gilydd.

Cyfrannodd cyfranogwyr dystiolaeth ar flaenoriaethau rhanbarthol, capasiti cyflawni, risgiau ariannu a phwysigrwydd parhad ar gyfer gwasanaethau sy'n wynebu pobl. Tynnodd yr ymgysylltu sylw at anghenion penodol cymunedau gwledig, arfordirol, ôl-ddiwydiannol a chymunedau Cymraeg, yn ogystal â'r pethau sy'n rhwystro grwpiau difreintiedig rhag cael mynediad at gyflogaeth, sgiliau a gwasanaethau.

Mae'r cyfranogiad hwn wedi llywio amcanion, model cyflawni a mesurau lliniaru'r Gronfa, gan sicrhau bod y LGF yn adlewyrchu profiad byw ac amrywiaeth ranbarthol. Bydd cyfranogiad parhaus yn parhau trwy bartneriaethau rhanbarthol, cyd-ddylunio blaenoriaethau ac ymgysylltu â phartneriaid cyflenwi wrth weithredu.

## Effaith

Disgwylir i'r LGF gyflawni effeithiau cadarnhaol sylweddol ar draws llesiant economaidd, cymdeithasol, diwylliannol, ieithyddol ac amgylcheddol.

Mae dadleuon o blaid y cynnig yn cynnwys ei allu i gyfrannu at ymdrechion i fynd i'r afael â heriau strwythurol hirsefydlog megis cynhyrchiant anwastad, cyfleoedd cyfyngedig ar gyfer swyddi ac anghydraddoldebau rhanbarthol. Mynegodd rhanddeiliaid gefnogaeth gref i fodel cydlynol, dan arweiniad rhanbarthol sy'n alinio seilwaith, cymorth busnes a buddsoddiad mewn sgiliau. Gall y Gronfa hefyd gefnogi datblygu carbon isel, gwytnwch hinsawdd ac atebion sy'n seiliedig ar natur, gan gyfrannu at nodau amgylcheddol a datgarboneiddio Cymru.

Mae'r risgiau posibl a nodwyd trwy ymgysylltu yn cynnwys amrywiaeth mewn capasiti cyflawnii rhanbarthol, ansicrwydd ynghylch trefniadau cyllido hirdymor a phryderon y gallai proffil cyllido trwm o ran cyfalaf leihau cymorth i wasanaethau sy'n canolbwyntio ar bobl ac a ariennir gan refeniw. Mae bylchau tystiolaeth yn parhau mewn perthynas â rhai deilliannau hirdymor, yn enwedig ar gyfer ardaloedd gwledig a grwpiau difreintiedig.

Caiff y risgiau hyn eu lliniaru trwy ganllawiau clir, blwyddyn pontio, gweithgarwch gwerthuso cynnar, monitro cryfach ac ymgysylltu parhaus â rhanbarthau a rhanddeiliaid i fireinio cyflawni dros amser.

**Costau ac Arbedion**

Mae'r LGF yn rhaglen gwerth £547 miliwn a ddarperir dros dair blynedd, wedi'i hariannu gan Lywodraeth y DU drwy drosglwyddo cyllideb flynyddol i Lywodraeth Cymru. Bydd buddsoddiad yn canolbwyntio ar seilwaith, ymchwil, datblygu a chymorth busnes, a sgiliau a chyflogaeth, gyda rhaniad cyfalaf o oddeutu 70% a 30% o refeniw.

Gellir lleihau costau trwy gynllunio cydlynol, trefniadau cyflawni cyffredin ac aliniad â rhaglenni a strwythurau rhanbarthol presennol. Gall cynllunio ar y cyd, llwybrau caffael cyffredin - pan fo'n berthnasol - a monitro cymesur helpu i osgoi dyblygu a gwella gwerth am arian.

Gall hefyd fod arbedion hefyd trwy weithredu ar raddfa fawr, llywodraethu rhanbarthol mwy effeithlon a'r gallu i gasglu buddsoddiad preifat a thrydydd sector ochr yn ochr â chyllid cyhoeddus. Gyda'i gilydd, mae'r dulliau hyn yn cefnogi camau cyflawni effeithiol wrth gryfhau capasiti economaidd rhanbarthol hirdymor.

## ADRAN 8. CASGLIADAU

### 8.1 Sut mae pobl y mae’n cynnig yn fwyaf tebygol o effeithio gan y cynnig wedi bod yn rhan o'i ddatblygu?

Datblygwyd y Gronfa Twf Lleol trwy ymgysylltu helaeth â phobl a sefydliadau y mae’r cynigion yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt. Roedd hyn yn cynnwys ymgynghoriad cenedlaethol chwe wythnos a phedwar digwyddiad ymgysylltu rhanddeiliaid ar-lein rhanbarthol, gan ddod â llywodraeth leol, busnesau, sefydliadau trydydd sector, darparwyr sgiliau ac addysg a chyrff cyhoeddus eraill at ei gilydd. Derbyniodd yr ymgynghoriad 154 o ymatebion, gyda thystiolaeth a chanfyddiadau wedi'u dadansoddi ar draws sectorau a rhanbarthau.

**Plant a’u Cynrychiolwyr**
Er bod yr ymgynghoriad yn canolbwyntio'n bennaf ar ddatblygiad economaidd, casglwyd safbwyntiau sy'n berthnasol i blant a phobl ifanc drwy sefydliadau sy'n cynrychioli llwybrau ieuenctid, addysg a dilyniant, gan gynnwys Ymddiriedolaeth y Brenin a Gwasanaeth Ieuenctid Blaenau Gwent. Tynnodd y sefydliadau hyn sylw at rwystrau y mae pobl ifanc yn eu hwynebu a phwysigrwydd parhad a hygyrchedd mewn darpariaeth sgiliau a chyflogadwyedd.

**Pobl a’u Nodweddion Gwarchodedig**
Cyfrannodd ystod eang o randdeiliaid sy'n canolbwyntio ar gydraddoldeb, gan gynnwys sefydliadau sy'n gweithio gyda phobl anabl, grwpiau lleiafrifoedd ethnig, menywod a phobl dan anfantais economaidd-gymdeithasol, dystiolaeth. Tynnodd yr adborth sylw at risgiau sy'n gysylltiedig â gostyngiadau mewn gwasanaethau a ariennir gan refeniw, rhwystrau mynediad a'r angen am fodelau cyflawni cynhwysol, wedi'u teilwra'n lleol.

**Siaradwyr Cymraeg a Grwpiau Cymraeg**
Rhoddodd rhanddeiliaid adborth manwl ar y Gymraeg, gan bwysleisio'r angen am ddarpariaeth ddwyieithog ac am fuddsoddiad i gefnogi cynaliadwyedd cymunedau Cymraeg. Roedd yr ymatebion yn tynnu sylw at gyfleoedd i gryfhau'r defnydd o'r Gymraeg a hunaniaeth ddiwylliannol drwy brosiectau a gefnogir gan y LGF.

**Grwpiau Eraill yr Effeithir Arnynt**
Roedd ymgysylltiad ehangach yn dal barn trigolion gwledig, busnesau, cyrff cymunedol, darparwyr cyflogadwyedd, sefydliadau diwylliannol ac awdurdodau lleol. Mae'r mewnbwn hwn yn siapio themâu allweddol gan gynnwys cyflawni seiliedig ar le, buddsoddi mewn asedau cymunedol, trafnidiaeth a chysylltedd digidol, a phwysigrwydd osgoi “pen dibyn” gwasanaethau wrth bontio o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin i'r y Gronfa Twf Lleol.

### 8.2 Beth oedd yr effeithiau mwyaf sylweddol, cadarnhaol a negyddol?

Disgwylir i'r y Gronfa Twf Lleol (LGF) gynhyrchu manteision hirdymor sylweddol i bobl, cymunedau, yr economi, yr amgylchedd a'r Gymraeg, wrth greu hefyd risgiau cymedrol y bydd angen eu rheoli'n ofalus.

**Yr Effaith ar Bobl a Chymunedau**

Gallai'r LGF gael effaith gadarnhaol sylweddol ar bobl ledled Cymru. Drwy dargedu buddsoddiad mewn ardaloedd ag anghydraddoldebau parhaus—yn enwedig cymunedau gwledig, arfordirol, Cymraeg ac ôl-ddiwydiannol – nod y Gronfa yw gwella mynediad at swyddi, sgiliau, gwasanaethau, asedau cymunedol a seilwaith lleol. Nododd ymatebwyr fod gwelliannau mewn trafnidiaeth, cysylltedd digidol, cymorth cyflogadwyedd a chyfleusterau cymunedol yn hanfodol i alluogi cyfranogiad mewn gwaith ac addysg, mynd i'r afael ag ynysu cymdeithasol a chryfhau gwytnwch lleol.

Fodd bynnag, mynegodd rhanddeiliaid bryderon hefyd am y ffenestr gyflawni fer a'r hollt gyllido drom o ran cyfalaf, a allai leihau parhad i bobl sy'n dibynnu ar raglenni a ariennir gan refeniw megis cyflogadwyedd, cymorth iechyd meddwl neu allgymorth cymunedol. Codwyd y risgiau hyn dro ar ôl tro gan sefydliadau'r trydydd sector, awdurdodau lleol ac unigolion, a bwysleisiodd berygl "pen dibyn" wrth i weithgarwch a ariennir gan Gronfa Ffyniant Gyffredi (SPF) ddod i ben ac i waith cyflawni'r LGF ddechrau.

**Yr Effaith ar Ddiwylliant a'r Gymraeg**

Cynigia'r LGF gyfleoedd cymedrol i sylweddol ar gyfer diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg. Gall buddsoddi mewn seilwaith lleol, asedau cymunedol, teithio llesol ac adfywio wella mynediad i leoliadau diwylliannol, cyfleusterau chwaraeon, lleoedd hanesyddol a rhaglenni celfyddydau a diwylliant cymunedol. Pwysleisiodd rhanddeiliaid fod sefydliadau diwylliant a hamdden eisoes yn darparu rhaglenni llwyddiannus gyda deilliannau llesiant a chynhwysiant cryf, ac y dylid cydnabod y rhain yn feysydd ar gyfer buddsoddi.

Roedd y Gymraeg yn thema gref gydol yr ymatebion i'r ymgynghoriad. Nododd rhanddeiliaid y potensial i'r LGF gryfhau cymunedau Cymraeg, cefnogi sgiliau dwyieithog, ac ehangu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn bywyd bob dydd—yn enwedig mewn ardaloedd gwledig lle mae'r iaith yn ganolog i hunaniaeth pobl a'u hymdeimlad o berthyn. Fodd bynnag, rhybuddiwyd hefyd, heb ddisgwyliadau penodol, fod y ddarpariaeth Gymraeg mewn perygl o ddod yn anghyson neu'n eilradd i'r Saesneg. Neges gyson oedd bod yn rhaid ymgorffori ystyriaeth lawn o'r iaith o'r cychwyn cyntaf wrth ddylunio a chyflawni'r prosiect, wedi'i gefnogi gan ganllawiau clir a chymorth priodol.

**Yr Effaith ar yr Economi**

Disgwylir i'r effeithiau economaidd fod yn rhai sylweddol ac eang. Nod y LGF yw cefnogi twf cynhyrchiant, cystadleurwydd busnes, arloesedd, cyflogaeth leol a thwf economaidd rhanbarthol. Amlygodd adborth yr ymgynghoriad fod gwelliannau i gludiant, cysylltedd digidol, adeiladau busnes a mannau cymunedol yn creu'r amodau ar gyfer twf menter, cyfranogiad y gweithlu ac economïau rhanbarthol gwydn.

Pwysleisiodd rhanddeiliaid mai seilwaith lleol oedd y “llwyfan” y mae pob gweithgarwch economaidd arall yn dibynnu arno.

Mae'r y Gronfa hefyd yn creu cyfleoedd i ddefnyddio buddsoddiad preifat—yn enwedig mewn ynni adnewyddadwy, seilwaith digidol a sectorau arloesi gwerth uchel. Fodd bynnag, tynnodd rhanddeiliaid sylw at bwysau ar rai awdurdodau lleol a CJCs, risgiau o ddargyfeirio cyllid i ddiogelu cyllidebau craidd, a phryderon am barodrwydd anwastad ar draws rhanbarthau, a allai waethygu anghydraddoldebau daearyddol os na chânt eu lliniaru. Sefydlir arweiniad i fynd i’r afael â’r risgiau hyn.

**Yr Effeithiau ar yr Adnoddau Amgylcheddol a Naturiol**
Mae’r LGF yn cyd-fynd yn gryf â nodau amgylcheddol a datgarboneiddio Cymru. Gall y rhaglen wneud cyfraniadau cadarnhaol sylweddol drwy gefnogi:

- Atebion sy'n seiliedig ar natur, megis seilwaith gwyrdd, gwyrddni trefol, a gwella bioamrywiaeth
- Ynni adnewyddadwy a charbon isel, gan gynnwys ynni adnewyddadwy cymunedol, gwynt ar y môr a seilwaith galluogi
- Effeithlonrwydd ynni, yn enwedig ar gyfer tai a chyfleusterau cymunedol, sy'n helpu i fynd i'r afael â thlodi tanwydd a lleihau allyriadau
- Addasu i'r hinsawdd, gan gynnwys lliniaru llifogydd, cludiant gwydn a gwell ansawdd amgylcheddol

Mae'r ymyriadau hyn yn helpu i fynd i'r afael â heriau cenedlaethol lluosog gan gynnwys colli bioamrywiaeth, newid yn yr hinsawdd, ansawdd aer, rheoli dŵr ac iechyd y cyhoedd.

Mae risgiau amgylcheddol yn ymwneud yn bennaf â'r amserlen fyr, a all gyfyngu ar y gallu i gyflawni prosiectau mwy cymhleth neu hir o ran amser arweiniol.

**Themâu sy’n Codi o’r Cyfranogiad**
Ar draws gweithgareddau ymgysylltu, cododd nifer o themâu’n gyson:

Rhaid i gyflenwi seiliedig ar le barhau’n ganolog, gan ganiatáu i CJCs a llywodraeth leol lunio buddsoddiad o amgylch anghenion.

Mae parhad cymorth yn hanfodol - rhybuddiodd rhanddeiliaid dro ar ôl tro yn erbyn bylchau gwasanaeth wrth bontio o’r SPF i’r LGF.

Cyfalaf a refeniw cytbwys: Pwysodd rhanddeiliaid am ragor o hyblygrwydd i sicrhau nad yw gwasanaethau sy’n canolbwyntio ar bobl yn cael eu dadleoli.

Llywodraethu cynhwysol: Pwysleisiodd sefydliadau trydydd sector a chydraddoldeb yr angen am ddulliau clir i sicrhau bod eu cyfranogiad yn ystyrlon.

Parodrwydd i'w ddarparu: Tynnodd llawer o bartneriaid sylw at amrywiaeth ar draws rhanbarthau a'r angen am gymorth wedi'i dargedu i sicrhau mynediad cyfartal at gyllid. Mae cyfle i ystyried gweithio gyda'r amrywiaeth o brosiectau a arweinir gan y gymuned sy'n cefnogi'r Gymraeg.

Cryfhau cymunedau Cymraeg a gwella hunaniaeth ddiwylliannol: Disgwyliadau cryf i'r LGF gefnogi cynaliadwyedd hirdymor cymunedau Cymraeg, cynyddu'r defnydd o'r iaith a chynnal sefydliadau diwylliannol arwyddocaol.

Eir i'r afael â'r risgiau hyn trwy'r mesurau lliniaru a nodir yn adran 8.3.

**8.3 Yng ngoleuni'r effeithiau a nodwyd, sut y bydd y cynnig:**

- **yn cynyddu i'r eithaf y cyfraniad i'n hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu,**
- **yn osgoi, yn lleihau neu'n lliniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

Mae'r y Gronfa Twf Lleol (LGF) wedi'i chynllunio i wneud yn fawr o'i chyfraniad at amcanion llesiant Llywodraeth Cymru a'r saith nod llesiant drwy ymgorffori egwyddorion hirdymor, ataliol, cydweithredol a seiliedig ar le drwy gydol y gwaith o'i chyflawni. Ar yr un pryd, mae'r cynnig yn cynnwys cyfres o gamau gweithredu wedi'u targedu i liniaru'r risgiau allweddol a nodwyd trwy asesiadau effaith ac ymgysylltu â rhanddeiliaid.

**Cynyddu i'r eithaf y cyfraniad i nodau ac amcanion llesiant**

**Cymru Lewyrchus / Cymru sy'n Fwy Cyfartal / Cymru o Gymunedau Cydlynus**
Nod y LGF yw cryfhau economïau rhanbarthol drwy fuddsoddi mewn seilwaith, sgiliau, cymorth busnes ac asedau allweddol mewn cymunedau. Trwy dargedu ardaloedd gwledig, arfordirol ac ôl-ddiwydiannol lle mae anghydraddoldebau yn fwyaf parhaus, mae'r y Gronfa yn cefnogi gwaith teg, cyflogaeth leol, twf cynhwysol a gwell mynediad at wasanaethau.

**Cymru Gydnerth / Cymru Iachach**
Bydd ymgorffori atebion sy'n seiliedig ar natur, seilwaith carbon isel ac ynni adnewyddadwy yn lleihau allyriadau, yn gwella ansawdd yr amgylchedd, yn cefnogi addasu i'r hinsawdd ac yn cyfrannu at amodau byw iachach. Mae buddsoddiadau mewn teithio llesol, mannau cymunedol ac amwynderau lleol yn hyrwyddo gweithgarwch corfforol, llesiant meddyliol a chysylltiad cymdeithasol.

**Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu**
Gall y LGF gefnogi cyfranogiad diwylliannol trwy fuddsoddi mewn asedau diwylliannol, cyfleusterau hamdden ac adfywio dan arweiniad treftadaeth. Gall cymunedau Cymraeg—yn enwedig mewn ardaloedd gwledig—elwa o ddisgwyliad o ddarpariaeth ddwyieithog o fewn prosiectau a ariennir, cyfleoedd i gryfhau seilwaith lleol, gwella mynediad at wasanaethau, a swyddi newydd, a mwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r iaith o ddydd i ddydd.

**Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang**
Mae dylunio sy'n effeithlon o ran adnoddau, prosiectau ynni adnewyddadwy, a ffocws ar wydnwch hinsawdd yn cyfrannu at ddatgarboneiddio wrth gefnogi cadwyni cyflenwi lleol a sgiliau gwyrdd.

### Camau i hyrwyddo bioamrywiaeth, gweithredu ar newid hinsawdd ac adnoddau naturiol

I gynyddu i'r eithaf ddeilliannau amgylcheddol cadarnhaol, bydd Llywodraeth Cymru yn:

- **Annog dylunio sy'n seiliedig ar natur** mewn prosiectau seilwaith ac adfywio (e.e. seilwaith gwyrdd, gwella cynefinoedd, gwyrddni trefol).
- **Alinio buddsoddiad y LGF â Chynlluniau Ynni Ardal Leol,** strategaethau ynni rhanbarthol a chyfleoedd ynni adnewyddadwy.
- **Annog prosiectau i ddangos effeithlonrwydd adnoddau**, dylunio carbon isel ac egwyddorion yr economi gylchol.
- **Defnyddio gwerthuso a monitro cynnar** i olrhain deilliannau amgylcheddol a hyrwyddo gwelliant parhaus.

Mae'r camau hyn yn sicrhau aliniad â blaenoriaethau Polisi Adnoddau Naturiol a'r ddyletswydd bioamrywiaeth statudol.

### Camau i hyrwyddo hawliau plant

Mae nifer o amcanion y LGF yn effeithio ar bobl ifanc trwy gyflogadwyedd a mynediad at wasanaethau lleol. Bydd Llywodraeth Cymru yn:

- Sicrhau bod Cynlluniau Rhanbarthol yn ystyried rhwystrau gerbron pobl ifanc, yn enwedig y rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.
- Annog ymgysylltu â phartneriaid yn y sector ieuenctid, gan gynnwys y rhai a gyfrannodd i'r ymgynghoriad, i lunio blaenoriaethau lleol.
- Annog prosiectau i wella mynediad at hyfforddiant, llwybrau dilyniant a chyfleusterau cymunedol a ddefnyddir gan blant a phobl ifanc.
- Cyhoeddi'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant a sicrhau bod yr holl bartneriaid darparu yn deall y goblygiadau i ddyluniad eu prosiect.

## Camau i hyrwyddo cydraddoldeb a lleihau anghydraddoldebau

Er mwyn hyrwyddo cydraddoldeb a lliniaru risgiau i grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, bydd Llywodraeth Cymru yn:

- Gofyn am ymgorffori ystyriaethau cydraddoldeb ym mhob cynllun Rhanbarthol a lefel prosiect.
- Hyrwyddo modelau cyflawni hyblyg sy'n cyrraedd grwpiau sydd wedi eu rhwystro rhag cymryd rhan (e.e. pobl anabl, grwpiau lleiafrifoedd ethnig, menywod, aelwydydd incwm isel).
- Annog partneriaethau gyda'r trydydd sector, sy'n darparu cymorth hanfodol i grwpiau agored i niwed.
- Galluogi elfennau refeniw cymedrol o fewn prosiectau cyfalaf i sicrhau mynediad cynhwysol a pharhad gwasanaethau.
- Cyhoeddi arweiniad cadarn ar ymgysylltu cynhwysol, caffael, hygyrchedd a gwaith teg.

## Camau i gryfhau’r Gymraeg

Er mwyn gwneud yn fawr o'r effeithiau cadarnhaol i siaradwyr Cymraeg, bydd Llywodraeth Cymru yn ymgorffori nodau Cymraeg 2050 yn llawn:

- Ailadrodd y rhwymedigaethau cyfreithiol i ymgorffori’r Gymraeg wrth galon nodau ac amcanion y rhaglen.
- Cefnogi rhanbarthau i nodi cyfleoedd sy'n cryfhau'r defnydd o'r Gymraeg mewn cymunedau a gweithleoedd yn ogystal â chynnal bywiogrwydd hirdymor cymunedau Cymraeg.
- Gweithio gyda swyddogion Cymraeg 2050 i ddarparu arweiniad ac adeiladu gallu.
- Gofyn bod Cynlluniau Rhanbarthol CJC’s i fynd i’r afael ag effeithiau ieithyddol a dangos chyfrannu i sicrhau bod cymunedau Cymraeg yn parhau i ffynnu.

## Camau i osgoi, lleihau neu liniaru effeithiau negyddol

Y risgiau mwyaf sylweddol a nodwyd oedd:

- yr hollt ariannu drom o ran cyfalaf gan leihau’r cymorth i wasanaethau sy’n ddibynnol ar refeniw
- amserlenni cyflawni byr
- capasiti rhanbarthol amrywiol

- risg “pen dibyn” adeg trosglwyddo o’r SPF i’r LGF
- risg o ymylu sefydliadau llai neu gymunedol

Mae camau lliniaru yn cynnwys:

- Blwyddyn drosiannol i sefydlogi cyflawni ac amddiffyn gwasanaethau beirniadol.
- Canllawiau clir ar ddefnyddio refeniw cyfyngedig i gefnogi dichonoldeb, ymgysylltu a pharhad pan fo angen.
- Cymorth adeiladu capasiti i CJCs a llywodraeth leol.
- Monitro cymesur i leihau’r baich gweinyddol.
- Gosod gofynion gofynnol a darparu cymorth ar gyfer dulliau llywodraethu ac ymgysylltu i sicrhau bod y trydydd sector, grwpiau cydraddoldeb a rhanddeiliaid Cymraeg yn cymryd rhan lawn.
- Cyd-fynd yn gynnar â rhaglenni a strategaethau buddsoddi eraill Llywodraeth Cymru a rhai ehangach i leihau dyblygu a sicrhau cymaint o gydlyniad ag y bo modd.

Pan na ellir lliniaru effeithiau negyddol yn llawn—yn fwyaf arbennig yr amlen refeniw gyfyngedig—mae hyn yn adlewyrchu cyfyngiadau setliad cyllid UKG yn hytrach na dewisiadau polisi Llywodraeth Cymru. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro risgiau a gweithio gyda rhanbarthau i leihau’r tarfu ar wasanaethau.

### 8.4 Sut y monitrir effaith y cynnig a'i werthuso wrth iddo fynd ymlaen a phan fydd yn dod i ben?

Monitrir y Gronfa Twf Lleol (LGF) a'i gwerthuso trwy ddull strwythuredig, dros nifer o gamau sydd wedi'i gynllunio i sicrhau atebolrwydd, mesur deilliannau a galluogi gwelliant parhaus. Bydd monitro yn digwydd ar lefel prosiect, rhanbarthol a chenedlaethol, a gofynion adrodd yn gymesur â'r trefniadau cyflawni a'r ffenestr ariannu tair blynedd. Mae hyn yn adlewyrchu adborth rhanddeiliaid sy'n galw am fonitro symlach, cymesur, gyda dangosyddion perfformiad allweddol clir ac adroddiadau cyson ar draws rhanbarthau.

Bydd Llywodraeth Cymru yn casglu data monitro rheolaidd gan y pedwar Awdurdod Lleol arweiniol rhanbarthol yn ystod y flwyddyn pontio a gan Gyd-bwyllgorau Corfforedig (CJCs) wedi hynny. Bydd hyn yn cynnwys cynnydd o ran cerrig milltir, allbynnau a deilliannau, proffiliau gwariant, cydraddoldeb ac ystyriaethau Cymraeg, perfformiad amgylcheddol ac arwyddion cynnar o effaith. Bydd tystiolaeth dull cymysg—cyfuno dangosyddion meintiol â chanfyddiad ansoddol—yn cael ei ddefnyddio i ddeall heriau cyflawni ac effeithiau sy'n dod i'r amlwg, gan gefnogi dysgu parhaus.

Cynhelir gwerthusiad ffurfiannol yn cael wrth gyflawni i asesu cynnydd a chefnogi camau i gywiro cwrs pan fo angen, yn unol â'r mesurau lliniaru a nodir yn adran 8.3. Cwblheir gwerthusiad crynodol ar ddiwedd y Gronfa i asesu effeithiolrwydd, gwerth am arian, cyfraniad at y nodau llesiant ac i ba raddau y mae'r LGF wedi cyflawni o ran y deilliannau a fwriadwyd. Bydd gweithgarwch gwerthuso cynnar hefyd yn helpu i fynd i'r afael â bylchau tystiolaeth a nodwyd, yn enwedig mewn perthynas ag effeithiau gwledig, llwybrau cynhyrchiant a deilliannau ar gyfer grwpiau difreintiedig.

**Adolygiad ôl-weithredu**

Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canfyddiadau gwerthuso ac yn defnyddio gwersi a ddysgwyd i lywio a mireinio dulliau buddsoddi rhanbarthol yn y dyfodol, gan sicrhau eu bod yn parhau i gyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru).

# ASESIADAU EFFAITH LLAWN

## A. ASESIAD O'R EFFAITH AR HAWLIAU PLANT

### 1. Amcanion polisi

Mae'r y Gronfa Twf Lleol yn rhaglen newydd tair blynedd a gefnogir gan Lywodraeth y DU – gwerth £547 miliwn yng Nghymru rhwng Ebrill 2026 a Mawrth 2029 - wedi'i gynllunio i gyfrannu at uchelgeisiau Llywodraeth Cymru a'r DU i roi hwb i gynhyrchiant, lleihau anghydraddoldebau rhanbarthol, a chefnogi twf economaidd hirdymor. Yng Nghymru, mae'r broses o wneud penderfyniadau wrthi'n cael ei adfer i Lywodraeth Cymru, a fydd yn datblygu Cynllun Buddsoddi ac yn darparu'r gronfa drwy haenau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol, a Chyd-bwyllgorau Corfforedig (CJCs) yn chwarae rhan ganolog ar ôl blwyddyn drosiannol 2026–27. Mae'r gronfa yn canolbwyntio ar dair thema eang: seilwaith, Ymchwil, Datblygu ac Arloesi (RD&I) a chymorth busnes, a sgiliau a chyflogaeth, gyda rhaniad oddeutu 70% cyfalaf / 30% refeniw. Mae'n cyd-fynd â rhaglenni a strategaethau ehangach y DU a Chymru - gan gynnwys Bargeinion Dinas a Thwf, Parthau Buddsoddi, a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol - a'i bwriad yw ategu buddsoddiadau rhanbarthol eraill, cefnogi blaenoriaethau wedi'u teilwra'n lleol, ac annog cydweithio ar draws y llywodraeth a phartneriaid.

Disgwylir i'r y Gronfa Twf Lleol ddarparu manteision sylweddol i blant a phobl ifanc drwy wella mynediad at swyddi, sgiliau, gwasanaethau ac asedau cymunedol - yn enwedig i'r rhai ar aelwydydd incwm isel, ardaloedd gwledig neu dan anfantais, a'r rhai yr effeithir arnynt gan risgiau amgylcheddol. Fodd bynnag, nodir sawl risg, gan gynnwys bylchau posibl mewn gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar ieuenctid oherwydd y rhaniad cyllid cyfalaf-trwm, capasiti cyflenwi rhanbarthol anwastad, oedi wrth fynd i'r afael â rhwystrau digidol a thrafnidiaeth, a "phen dibyn" posibl yn ystod y trawsnewidiad o'r SPF i'r LGF a allai amharu ar gymorth y mae pobl ifanc sy'n agored i niwed yn dibynnu arno.

Gweler isod y ddolen at y ddogfen ymgynghori.

Cynigion ar gyfer ymagwedd at y Gronfa Twf Lleol y DU yng Nghymru

### 2. Casglu tystiolaeth ac ymgysylltu â phlant a Phobl ifanc

Rydym wedi llunio dogfen dadansoddi economaidd-gymdeithasol ar gyfer y thema flaenoriaeth o gynyddu sgiliau a chynorthwyo pobl i weithio, sy'n defnyddio'r ymchwil a'r data canlynol:

**Arolwg o'r llafurlu (LFS) ar bobl ifanc (16–24)**

Mae'r dadansoddiad yn cyflwyno canfyddiadau manwl yr LFS ar anweithgarwch economaidd ymhlith pobl ifanc yng Nghymru, gan gynnwys:

- cyfradd anweithgarwch 39.5% ar gyfer pobl ifanc 16–24oed.
- Tystiolaeth sy'n cyfeirio at iechyd meddwl gwael a salwch hirdymor yn rhwystrau cynyddol i bobl ifanc.

**Ymchwil ynghylch NEET**

Cyfeirir at gorff sylweddol o ymchwil ar bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET):

- **Resolution Foundation – *False Starts*[1]**
  Yn dangos nad yw 44% o bobl ifanc NEET yn ymgysylltu â'r system fudd-daliadau, gan dynnu sylw at yr angen am allgymorth rhagweithiol.
- **EPPI-Mapper[2]**
  Cronfa ddata sy’n nodi 399 o astudiaethau sy’n gwerthuso cyflogaeth ieuenctid ac ymyriadau sgiliau.
- **Youth Futures Foundation – *What works in reducing NEET rates*[3]**
  Yn nodi pedwar maes gweithredu blaenoriaeth:
    - Nodi pobl ifanc dan risg yn gynnar
    - Gwarant Ieuenctid gyda dulliau cymhorthdal cyflog
    - Rhagor o brentisiaethau a llwybrau sgiliau o ansawdd uchel
    - Mynd i’r afael ag iechyd meddwl yn rhwystr o bwys

**Gwerthusiadau o raglenni o fath Gwarant Ieuenctid**

Cyfeiria’r dadansoddiad at nifer o werthusiadau rhyngwladol a Chymreig sylweddol:

- Gwarant i Bobl Ifanc (YPG) Cymru[4]
- France and Finland Youth Guarantee evaluations[5,6]

[1] Resolution Foundation (2025) *False starts: What the UK’s growing NEETs problem really looks like, and how to fix it*. Ar gael yn: https://www.resolutionfoundation.org/publications/false-starts/
[2] EPPI-Mapper
[3] Youth Futures Foundation (2025) *What works in reducing NEET rates: a comparative study*. Ar gael yn: https://youthfuturesfoundation.org/publication/what-works-in-reducing-neet-rates-a-comparative-study/
[4] Gwarant i Berson Ifanc | LLYW.CYMRU
[5] The+Youth+Guarantee+in+Finland
[6] Association of Finnish Local and Regional Authorities (n.d.) *Finland Youth Guarantee*. Ar gael yn: https://www.localfinland.fi/sites/default/files/media/file/Finland%20Youth%20Guarantee.pdf

Mae'r ymchwil yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer dylunio polisi cyflogaeth a sgiliau sy'n canolbwyntio ar ieuenctid, a hwnnw wedi'i wreiddio mewn data meintiol am y farchnad lafur a gwerthusiadau cadarn o'r hyn sy'n gweithio ar lawr gwlad.

Disgwylir i'r LGF gael effaith gadarnhaol gyffredinol ar blant a phobl ifanc drwy wella mynediad at swyddi, sgiliau, gwasanaethau cymunedol a chyfleusterau, yn enwedig i'r rhai mewn aelwydydd incwm isel ac mewn ardaloedd gwledig, arfordirol ac ôl-ddiwydiannol, lle gall buddsoddiad mewn cludiant, cysylltedd digidol a seilwaith cymunedol leihau rhwystrau hirsefydlog rhag addysg, hyfforddiant a llesiant. Trwy gefnogi rhieni a gofalwyr i weithio a chryfhau economïau lleol, gall y LGF hefyd wella sefydlogrwydd teuluoedd a deilliannau hirdymor i blant yn anuniongyrchol. Fodd bynnag, mae effeithiau negyddol posibl os na chaiff risgiau eu rheoli, gan gynnwys tarfu ar wasanaethau ieuenctid, cyflogadwyedd a llesiant a ariennir gan refeniw oherwydd proffil cyfalaf trwm y gronfa ac amserlenni cyflawni byr, a allai effeithio'n anghymesur ar bobl ifanc sy’n agored i niwed a'r rhai sydd bellaf o'r farchnad lafur. Gallai capasiti cyflenwi lleol anwastad hefyd arwain at anghydraddoldebau daearyddol, sy'n golygu y gall rhai grwpiau o blant a phobl ifanc elwa llai nag eraill os na weithredir mesurau lliniaru’n effeithiol.

### Gwaith cyfranogol gyda phlant a phobl ifanc i lywio ein polisi

Cynhaliwyd pedwar digwyddiad ymgysylltu â rhanddeiliaid ar-lein, a fynychwyd gan nifer o sefydliadau sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc (e.e. Gyrfa Cymru a Gwasanaeth Ieuenctid Caerdydd). Cawsom hefyd lawer o ymatebion ysgrifenedig i'r ymgynghoriad gan sefydliadau sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc. Defnyddiodd y dadansoddiad economaidd-gymdeithasol sydd wedi llywio cynigion y Gronfa Twf Lleol ymchwil a data gan sefydliadau y mae eu gwaith yn canolbwyntio ar blant a phobl ifanc, megis Sefydliad Youth Futures a Fforwm Ieuenctid Ewrop. Mae cynrychiolwyr o Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Colegau Cymru a Medr yn eistedd ar ein Grŵp Llywio Buddsoddi Rhanbarthol sy'n cyfarfod yn rheolaidd.

Mae oedi wedi golygu bod y Gronfa Twf Lleol wedi'i chreu mewn amserlen fer iawn, felly, yn anffodus, nid ydym wedi ymgysylltu'n uniongyrchol â phlant a phobl ifanc. Bydd disgwyl i CJC’s ac awdurdodau lleol arweiniol ymgysylltu â phlant a phobl ifanc pan fyddant yn penderfynu pa brosiectau i'w hariannu ac i asesu effeithiau'r prosiectau y maent yn eu hariannu ar blant a phobl ifanc. Ar gyfer prosiectau sydd wedi'u hanelu at blant a phobl ifanc, megis prosiect cyflogadwyedd, bydd yn bwysig iddynt ymgysylltu â phlant a phobl ifanc i'w hysbysu am y cyfleoedd y mae'r prosiect yn eu cynnig. Gall prosiectau hefyd ymgysylltu â phlant a phobl ifanc i gasglu adborth a monitro deilliannau'r prosiect.

Tynnodd adborth gan sefydliadau sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc sylw at yr angen am ymyrraeth gynnar, atal a gwell cefnogaeth ar gyfer llwybrau dilyniant ieuenctid, gan bwysleisio y dylai buddsoddiad helpu i atal diffygion sgiliau a chyrraedd pobl ifanc dan anfantais mewn ardaloedd difreintiedig neu rai gwledig. Pwysleisiodd bwysigrwydd

ymgysylltu ieuenctid sydd wedi'i dargedu, mynediad cynhwysol a theg at gyfleoedd, ac aliniad â rhaglenni cyflogadwyedd ac addysg presennol i osgoi dyblygu a sicrhau llwybrau cydlynol at waith. Codwyd pryderon hefyd am ariannu pen dibyn yn ystod y trawsnewidiad o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin i'r y Gronfa Twf Lleol, gan nodi y byddai bylchau yn effeithio'n anghymesur ar bobl ifanc sy'n dibynnu ar barhad cymorth. Ymgorfforwyd yr adborth hwn wrth lunio'r cynllun buddsoddi. Cryfhawyd egwyddorion arweiniol y LGF ar atal a deilliannau hirdymor a gwnaed addasiadau i'r maes blaenoriaeth sgiliau.

## 3. Dadansoddi'r dystiolaeth ac asesu'r effaith

### Effaith y Gronfa Twf Lleol ar Blant a Phobl Ifanc, a Mesurau Lliniaru

Gan ddefnyddio'r dystiolaeth sydd ar gael, disgwylir i'r y Gronfa Twf Lleol (LGF) gael effeithiau cadarnhaol cyffredinol ar blant a phobl ifanc, ond wrth greu hefyd nifer o risgiau y bydd angen eu lliniaru.

Effeithiau Cadarnhaol

**Gwell cyfleoedd i bobl ifanc (16–24) gael mynediad at sgiliau, hyfforddiant a chyflogaeth**
Mae tystiolaeth o'r Arolwg o'r Llafurlu ac ymchwil cyflogaeth ieuenctid yn dangos anweithgarwch economaidd uchel ymhlith pobl ifanc, sydd yn aml yn gysylltiedig â heriau iechyd meddwl, diffyg profiad gwaith, ac opsiynau cludiant cyfyngedig. Gall buddsoddiad y LGF mewn llwybrau sgiliau, cymorth cyflogadwyedd, a seilwaith hygyrch wella trawsnewidiadau i waith yn sylweddol, yn enwedig i'r rhai sydd mewn perygl o ddod yn NEET neu barhau yn NEET.

**Buddion i blant ar aelwydydd incwm isel**
Trwy gefnogi'r gwaith o greu swyddi, rhoi hwb i economïau lleol a gwella mynediad at wasanaethau, gall y LGF gefnogi'n anuniongyrchol sefydlogrwydd teuluol a deilliannau hirdymor i blant sy'n byw mewn tlodi.

**Gwell mynediad at wasanaethau a chyfleusterau a werthfawrogir gan bobl ifanc**
Mae buddsoddiadau mewn asedau cymunedol, cysylltedd digidol, cludiant, mannau cyhoeddus a seilwaith lleol yn ei gwneud hi'n haws i blant a phobl ifanc gymryd rhan mewn addysg, hamdden, bywyd diwylliannol a gwasanaethau ieuenctid—yn enwedig mewn ardaloedd gwledig lle mae'r rhwystrau mynediad mwyaf.

**Gwell ansawdd amgylcheddol a chydnerthedd hinsawdd**
Mae datrysiadau sy'n seiliedig ar natur, seilwaith gwyrdd a llwybrau teithio llesol gwell yn gwella amgylcheddau lleol ac yn cefnogi ffyrdd iachach o fyw. Mae'r gwelliannau hyn o fudd anghymesur i bobl ifanc, yn enwedig y rhai sy'n byw mewn ardaloedd sydd ag ansawdd aer gwael neu fannau awyr agored diogel cyfyngedig.

<u>Effeithiau Negyddol a Risgiau</u>

**Risg o lai o gymorth i wasanaethau ieuenctid yr ariannir eu refeniw**
Oherwydd bod i'r LGF ffocws mawr ar gyfalaf, mae risg y gall rhaglenni y mae pobl ifanc yn dibynnu arnynt—megis allgymorth, gwaith ieuenctid, mentora cyflogadwyedd, cymorth iechyd meddwl yn y gymuned a llwybrau dilyniant—dderbyn refeniw annigonol. Gallai hyn effeithio'n anghymesur ar bobl ifanc sy'n agored i niwed, gan gynnwys y rhai sydd bellaf o'r farchnad lafur neu sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

**Risg o darfu ("pen dibyn") rhwng gwasanaethau a ariennir gan SPF a darparu'r LGF newydd**
Gall ffenestri cyflenwi byr ac amserlenni pontio tynn achosi bylchau dros dro mewn cymorth ieuenctid, rhaglenni cyflogadwyedd a gwasanaethau lleol. Mae tystiolaeth yn dangos y gall y bylchau hyn effeithio'n negyddol ar hyder, llesiant ac ymgysylltiad ymhlith pobl ifanc.

**Anghydraddoldeb daearyddol sy'n effeithio ar bobl ifanc mewn ardaloedd gwledig, arfordirol ac ôl-ddiwydiannol**
Gall fod yn arafach i ranbarthau sydd â llai o gapasiti darparu neu lai o brosiectau parod i'w gweithredu wireddu buddion. O ystyried y lefelau uwch o eithrio digidol, rhwystrau cludiant a phrinder gwasanaethau yng nghefn gwlad Cymru, gall pobl ifanc yn y cymunedau hyn wynebu oedi neu lai o fynediad at gyfleoedd.

**Eithrio digidol a chludiant sy'n parhau i bobl ifanc**
Er bod yr LGF yn anelu at wella cysylltedd, gall cynnydd fod yn anwastad. Mae tystiolaeth yn dangos bod trafnidiaeth yn rhwystr mawr i bobl ifanc gael mynediad at swyddi ac addysg, a 79% yn dweud ei fod yn cyfyngu ar eu cyfleoedd. Gallai'r cyfyngiadau hyn barhau nes i fuddsoddiadau gael effaith.

<u>Mesurau Lliniaru</u>

I leihau effeithiau negyddol a chryfhau hawliau plant, bydd Llywodraeth Cymru yn:

- **Cefnogi parhad darpariaeth sy'n canolbwyntio ar ieuenctid yn ystod y flwyddyn drosiannol**
  Bydd Rhanbarthau yn cael eu hannog i ddefnyddio trefniadau pontio i osgoi bylchau gwasanaeth a diogelu rhaglenni presennol y mae pobl ifanc yn dibynnu arnynt, yn enwedig pobl ifanc NEET neu sydd ag anghenion cymorth ychwanegol.
- **Caniatáu defnydd cymesur o refeniw i gynorthwyo gyda'r gwaith o ddarparu'n gynhwysol**
  Pan fo angen, gellid defnyddio refeniw ochr yn ochr â phrosiectau cyfalaf ar gyfer ymgysylltu, hygyrchedd, diogelu, allgymorth a pharhad rhaglenni sydd o fudd i blant a phobl ifanc.

- **Gofyn bod Cynlluniau Rhanbarthol yn ystyried yn agored rwystrau sy’n effeithio ar bobl ifanc**
  Mae hyn yn cynnwys trafnidiaeth, mynediad digidol, heriau iechyd meddwl, diffyg profiad gwaith a heriau sy'n wynebu grwpiau ieuenctid difreintiedig.
- **Cryfhau cyfranogiad sefydliadau sy’n cynrychioli plant a phobl ifanc**
  Ymgysylltir â phartneriaid megis Gyrfa Cymru, gwasanaethau ieuenctid lleol, a sefydliadau'r trydydd sector drwy gydol y broses gynllunio a chyflawni i sicrhau bod profiad byw yn llywio penderfyniadau.
- **Sicrhau cyfathrebu a gofynion mynediad sy’n ystyriol o bobl ifanc**
  Bydd disgwyl i wasanaethau a chyfleusterau a ariennir gan y LGF ddarparu llwybrau gwybodaeth ac ymgysylltu dwyieithog, hygyrch, sy'n briodol i'w hoedran.
- **Ymgorffori ystyriaethau CCUHP ar draws dyluniad y prosiect**
  Rhaid i brosiectau ddangos sut maent yn ategu hawliau plant i gymryd rhan, datblygu, amgylcheddau diogel, a mynediad cyfartal at gyfleoedd.

Sut mae’r y Gronfa Twf Lleol yn gwella neu’n herio hawliau plant?

| **Erthygl CCUHP neu Brotocol Opsiynol** | **Yn Gwella (X)** | **Yn Herio (X)** | **Esboniad** |
|---|---|---|---|
| Erthygl 27 Mae gan blant hawl i safon byw sy'n ddigon da i ddiwallu eu hanghenion corfforol a meddyliol. Dylai’r Llywodraeth helpu teuluoedd nad ydynt yn gallu fforddio darparu hyn. | Oes | | Trwy gefnogi’r gwaith o greu swyddi, rhoi hwb i economïau lleol a gwella mynediad at wasanaethau, gall y LGF gefnogi’n anuniongyrchol sefydlogrwydd teuluol a deilliannau hirdymor i blant sy'n byw mewn tlodi. |
| Erthygl 15 Mae gan Blant yr hawl i gyfarfod â’i gilydd ac ymuno â grwpiau a sefydliadau, cyhyd gan nad yw hyn yn rhwystro eraill rhag | Oes | | Mae buddsoddiadau mewn asedau cymunedol, cysylltedd digidol, cludiant, mannau cyhoeddus a seilwaith lleol yn ei gwneud hi'n haws i blant a phobl ifanc gymryd rhan mewn addysg, hamdden, |

| | | | |
|---|---|---|---|
| mwynhau eu hawliau. | | | bywyd diwylliannol a gwasanaethau ieuenctid—yn enwedig mewn ardaloedd gwledig lle mae’r rhwystrau mwyaf rhag mynediad. |
| Erthygl 2 Mae'r Confensiwn yn berthnasol i bawb beth bynnag fo'u hil, eu crefydd, eu galluoedd, beth bynnag y maent yn ei feddwl neu'n ei ddweud ac o ba fath bynnag fath o deulu y maent yn dod. | Oes | | Gall y LGF sicrhau tegwch trwy ddefnyddio tystiolaeth ar anghydraddoldeb i lunio meini prawf cyllido a diogelu ieuenctid a ariennir gan refeniw, anghenion dysgu ychwanegol, cyflogadwyedd a gwasanaethau cymunedol y mae pobl ifanc sy’n agored i niwed yn dibynnu arnynt. Cynhaliwyd asesiad o’r effaith ar gydraddoldeb i sicrhau bod y LGF yn gwella cydraddoldeb yng Nghymru. |
| Erthygl 3 Dylai pob sefydliad sy’n ymwneud â phlant weithio er lles gorau pob plentyn. | Oes | | Disgwylir i brosiectau a ariennir gan y LGF sy'n canolbwyntio ar wella sgiliau a chyflogadwyedd i bobl ifanc weithredu er budd gorau'r bobl ifanc sy'n rhan o'r prosiect. Bydd monitro a gwerthuso yn sicrhau bod prosiectau'n cael effaith fuddiol ar y bobl ifanc dan sylw. |
| Erthygl 13 Mae gan blant yr hawl i gael a rhannu gwybodaeth ar yr amod nad yw'r wybodaeth yn niweidiol iddynt neu i eraill. | Oes | | Bydd prosiectau a ariennir gan y LGF sy'n effeithio'n uniongyrchol ar blant a phobl ifanc yn darparu gwybodaeth am y prosiect ar fformat hygyrch ac sy'n briodol i'w hoedran. Gallai hyn gynnwys taflenni a fersiwn 'hawdd ei ddarllen' o ddogfennau ar eu gwefan. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Erthygl 23 Dylai plant sydd ag unrhyw fath o anabledd gael gofal a chymorth arbennig fel y gallant fyw bywydau llawn ac annibynnol. | | Her a liniarwyd | Gallai cyllid refeniw llai o'i gymharu â’r SPF gael effaith negyddol anghymesur ar blant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r her hon wedi'i lliniaru drwy flwyddyn drosiannol i osgoi bylchau gwasanaeth a dyrannu'r rhan fwyaf o'r cyllid refeniw i'r thema flaenoriaeth 'cynyddu sgiliau a chefnogi pobl i weithio'. |
| Erthygl 26 Dylai'r Llywodraeth ddarparu arian ychwanegol i blant teuluoedd mewn angen. | | Her a Liniarwyd | Mae llai o gyllid refeniw ar gyfer rhaglenni allgymorth y LGF yn peryglu gwanhau'r cymorth personol, cymunedol y mae pobl bellaf o'r farchnad lafur yn dibynnu arno, gan gynyddu'r tebygolrwydd y bydd teuluoedd sy’n agored i niwed yn cael llai o fynediad at wasanaethau, mwy o straen ariannol, a mwy o rwystrau rhag cael gwaith a sefydlogrwydd. I liniaru hyn, mae’r LGF yn cynnwys blaenoriaeth sgiliau a chyflogadwyedd a ariennir gan refeniw yn bennaf a blwyddyn drosiannol a reolir sy'n cadw strwythurau cyflawni’r SPF er mwyn osgoi pen dibyn o ran cymorth. |
| Erthygl 27 Mae gan blant hawl i safon byw sy'n ddigon da i ddiwallu eu hanghenion corfforol a meddyliol. Dylai’r Llywodraeth helpu teuluoedd sy’n | Oes | | Gall y LGF wella safonau byw i blant mewn tlodi trwy gryfhau rhagolygon cyflogaeth rhieni a gwella amodau amgylcheddol ac economaidd lleol. Mae’r camau hyn yn lleihau caledwch aelwydydd, sefydlogi systemau cymorth, a chreu lleoedd iachach, cyforiog o |

| | | | |
|---|---|---|---|
| yn methu â ffforddio hyn. | | | gyfleoedd i blant dyfu i fyny ynddynt. Gyda'i gilydd, maent yn helpu i fynd i'r afael â gyrwyr strwythurol tlodi plant ac yn cefnogi gwell cyfleoedd bywyd dros amser. |
| Erthygl 31 Mae gan blant yr hawl i ymlacio a chwarae, ac i ymuno mewn amrywiaeth eang o weithgareddau. | Oes | | Gallai buddsoddi mewn asedau cymunedol rhanbarthol a mannau cyhoeddus roi gwell mynediad i blant i ganolfannau diogel, sy'n ystyriol o bobl ifanc lle gallant gymryd rhan mewn chwaraeon, celfyddydau a dysgu anffurfiol yn agos at adref. Bydd gwell trafnidiaeth a chysylltedd digidol yn helpu i gael gwared ar rwystrau rhag cyrraedd gweithgareddau, yn enwedig i blant mewn ardaloedd gwledig neu dan anfantais. |

## 4. Cyngor a phenderfyniad gweinidogol

Bydd y dadansoddiad o effeithiau ar blant a phobl ifanc yn llywio'n uniongyrchol gyngor gweinidogol drwy sicrhau bod y Gweinidog yn gwbl ymwybodol o'r cyfleoedd sylweddol y mae'r y Gronfa Twf Lleol yn eu creu ar gyfer gwella deilliannau, a'r risgiau y mae angen eu lliniaru i amddiffyn hawliau a llesiant pobl ifanc. Bydd y cyngor yn tynnu sylw at y dystiolaeth gref sy'n dangos y gall buddsoddiad y LGF gefnogi gwell sgiliau, llwybrau cyflogaeth, asedau cymunedol, cludiant a chysylltedd digidol—gall pob un ohonynt fod o fudd i bobl ifanc, yn enwedig mewn cymunedau difreintiedig neu wledig.

Ar yr un pryd, bydd y cyngor yn nodi'r angen am fesurau diogelu penodol, gan gynnwys cynnal parhad gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar ieuenctid yn ystod y cyfnod pontio o SPF, sicrhau cyllid refeniw cymesur i gefnogi darpariaeth gynhwysol, mynd i'r afael â rhwystrau megis cludiant ac eithrio digidol, a chynnwys partneriaid sector ieuenctid trwy gydol cynllunio a gweithredu.

Drwy gyflwyno'r risgiau a'r mesurau lliniaru hyn yn glir, bydd y cyngor yn cefnogi'r Gweinidog i wneud penderfyniadau sy'n cynnal CCUHP, osgoi effeithiau negyddol anfwriadol ac sy’n sicrhau’r deilliannau mwyaf cadarnhaol i bob plentyn a pherson ifanc ledled Cymru.

## 5. Cyfathrebu â Phlant a Phobl Ifanc

Byddwn yn parhau i ymgysylltu â sefydliadau rhanddeiliaid sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc drwy gydol y gwaith o ddarparu’r LGF, a byddwn yn cyhoeddi'r cynllun buddsoddi, crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, crynodeb o ddigwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid ac asesiad effaith integredig ar wefan Llywodraeth Cymru.

Bydd disgwyl i awdurdodau lleol arweiniol CJC’s a rhanbarthol ymgysylltu â sefydliadau sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc ac sy’n asesu effeithiau prosiectau ar blant a phobl ifanc wrth benderfynu pa brosiectau i'w ariannu. Bydd angen i brosiectau gyfathrebu gwybodaeth berthnasol i blant a phobl ifanc ar fformat hygyrch ac sy'n briodol i'w hoedran. Bydd monitro chwarterol yn sicrhau bod CJC’s ac awdurdodau lleol arweiniol yn bodloni'r disgwyliadau hyn.

## 6. Monitro ac Adolygu

Mae adolygiad 6 mis o'r rhaglen wedi'i gynllunio ar gyfer Hydref 2026, byddwn hefyd yn adolygu'r CRIA ar hyn o bryd.

## B. ASESIAD O'R EFFAITH AR Y GYMRAEG

*Cymraeg 2050* yw ein strategaeth genedlaethol ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo'n llwyr i'r strategaeth newydd, gyda'r targed o filiwn o siaradwyr wedi'i gynnwys yn ei Rhaglen Lywodraethu. Mae iaith Gymraeg ffyniannus hefyd wedi'i chynnwys yn un o'r 7 nod llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

1. **Cyfeirnod Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg:** WLIA - 16/01/2026

2. **Ydy'r cynnig yn dangos cysylltiad clir â Strategaeth Llywodraeth Cymru ar y Gymraeg?**

Mae'r cynnig yn dangos cysylltiad clir â nodau ac amcanion *Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr Cymraeg.* Mae'r cynnig yn cydnabod yr angen i gefnogi'r nodau i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn ogystal â chyfleoedd ymarferol i gynyddu'r defnydd o'r iaith mewn bywyd pob dydd. Mae'r strategaeth yn amlinellu tair thema ryng-gysylltiedig: cynyddu nifer y siaradwyr, cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, a chreu amodau ffafriol i'r iaith ffynnu. Mae'r cynnig hwn yn ymwneud â phob un o'r tri nod hyn trwy ystyried sut y gallai strwythurau cyflenwi, dulliau cyfathrebu, a mynediad at wasanaethau ddylanwadu ar y dirwedd ieithyddol.

Mae'r Gymraeg yn perthyn i holl bobl Cymru ac i'w siaradwyr ym mhob man. Mae gan strategaeth Llywodraeth Cymru, Cymraeg 2050, uchelgais gyffredinol i weld y Gymraeg yn ffynnu ar draws holl gymunedau Cymru.

Yn ei adroddiad diweddar "*Grymuso cymunedau, cryfhau'r Gymraeg*," mae'r Comisiwn Cymunedau Cymraeg wedi pwysleisio bod sicrhau dyfodol yr iaith yn gofyn am ystyriaeth lawn a rhagweithiol ar draws meysydd polisi allweddol, yn enwedig datblygiad economaidd. Mae llawer o ardaloedd Cymraeg dwysedd uwch wedi gweld gostyngiad yn niferoedd a chanran y siaradwyr Cymraeg yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Nododd y Comisiwn fod yr ardaloedd Cymraeg dwysedd uchel hyn wedi wynebu heriau strwythurol sy'n deillio o'r DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd ac effeithiau COVID-19.

Cyflwynodd y Comisiwn 57 o argymhellion, llawer ohonynt wedi'u cyfeirio at Lywodraeth Cymru. Mae'r argymhellion hyn yn tanlinellu pwysigrwydd ardaloedd sydd â phoblogaethau Cymraeg uwch, gan eu disgrifio fel ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch. Mae cynaliadwyedd hirdymor y cymunedau hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn ffynnu ar draws Cymru gyfan.

Yn unol â dyheadau Cymraeg 2050, tynnodd y Comisiwn sylw at rôl bwysig polisi economaidd wrth gefnogi'r iaith—yn enwedig mewn ardaloedd Cymraeg dwysedd uwch. Mae'r cymunedau hyn wedi'u cysylltu'n agos ag ardaloedd gwledig, gan rannu heriau cymdeithasol ac economaidd tebyg ac yn dibynnu'n fawr ar sectorau traddodiadol gan gynnwys amaethyddiaeth, twristiaeth a gwasanaethau cyhoeddus.

Un o'r heriau mwyaf i fywiogrwydd cymunedau Cymraeg yw bod pobl ifanc yn ymfudo allan yn barhaus. Er nad yw hyn bob amser yn unig oherwydd cyfleoedd gwaith cyfyngedig, mae argaeledd swyddi medrus iawn a chyflog da yn brin yn y meysydd hyn, gan gyfrannu at y duedd.

Mae'r cynnig hwn yn canolbwyntio ar flaenoriaethau seiliedig ar leoedd, a CJCs yn datblygu strategaethau rhanbarthol, a fydd yn cynnwys blaenoriaethu ardaloedd ar gyfer buddsoddi mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol a rhanddeiliaid allweddol eraill. Sicrha hyn fod pob ardal yn gallu ffynnu'n economaidd ac yn gymdeithasol.

Bydd Cam 2 y Comisiwn Cymunedau Cymraeg yn cyflwyno ei adroddiad a'i argymhellion i Lywodraeth Cymru yn 2026, gan ganolbwyntio ar yr heriau sy'n wynebu cymunedau Cymraeg mewn ardaloedd dwysedd is a chanolig.

3. **Disgrifiwch ac esboniwch effaith y cynnig ar y Gymraeg, ac esboniwch sut y byddwch yn mynd i'r afael â'r effeithiau hyn er mwyn gwella deilliannau i'r Gymraeg.**

Tynnodd ymatebion i'r ymgynghoriad sylw at y potensial i'r cynnig greu effeithiau cadarnhaol sylweddol, ar yr amod bod ystyriaethau o ran y Gymraeg wedi'u hymgorffori'n llawn yn y rhaglen o'r cychwyn cyntaf. Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r farn hon a bydd yn sicrhau bod y Gymraeg yn ystyriaeth graidd yn y rhaglen o'r cychwyn cyntaf.

Pwysleisiodd yr ymatebwyr nad yw buddion iaith yn awtomatig: mae angen camau gweithredu wedi'u targedu i ddiogelu a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg mewn gwasanaethau pob dydd, gweithleoedd a lleoliadau cymunedol.

Nododd ymatebwyr o awdurdodau lleol fod gan y cynigion “y potensial i gyflawni effeithiau cadarnhaol sylweddol i'r Gymraeg os ydynt wedi'u hymgorffori drwy gydol y gwaith o ddylunio a darparu prosiectau”, gan bwysleisio y dylai dulliau rhanbarthol adlewyrchu anghenion ieithyddol lleol a realiti cymunedau Cymraeg.

Os nad oedd ystyriaethau ynghylch y Gymraeg wedi’u prif ffrydio’n llawn, rhybuddiodd rhai ymatebwyr o'r trydydd sector a'r gymuned hefyd, “does dim sicrwydd y bydd datblygiad economaidd o fudd i'r Gymraeg”.

Gyda'i gilydd, mae'r sylwadau yn awgrymu bod y cynnig yn debygol o gael effaith gadarnhaol, ond dim ond os eir ati i brif ffrydio’r Gymraeg wrth weithredu.

O ganlyniad, byddwn yn gweithio gyda swyddogion Cymraeg 2050 ac yn rhoi arweiniad i bob CJC’s y bydd angen i'r cynigion ymgorffori ystyriaethau Cymraeg yn llawn wrth gefnogi bywiogrwydd cymunedau Cymraeg. Cydnabyddir bod y disgwyliad hwn yn fwy na darparu arwyddion, deunyddiau a gwasanaethau dwyieithog.

- **Sut bydd y cynnig yn effeithio ar gynaliadwyedd cymunedau Cymraeg[7] (effeithiau cadarnhaol a/neu andwyol)?**

Neges gref o'r ymgynghoriad oedd bod yn rhaid i'r cynnig gyfrannu'n fwriadol at gynnal cymunedau Cymraeg.

Mae’r themâu allweddol a godwyd yn cynnwys:

- Yr angen i alinio'r cynnig â modelau sy’n seiliedig ar leoedd ac sy'n canolbwyntio ar gymunedau ac sy'n cefnogi busnesau lleol, asedau cymunedol, economïau gwledig, a hunaniaeth ddiwylliannol—a phob un ohonynt yn cryfhau ardaloedd Cymraeg.
- Sicrhau bod datblygiad economaidd yn ymwybodol o ran ieithyddol, gan gydnabod bod y Gymraeg yn rhan annatod o hunaniaeth gymunedol, perthyn a chynaliadwyedd hirdymor.
- Cydnabod bod llawer o ardaloedd gwledig neu anghysbell sydd â chrynodiadau uwch o siaradwyr Cymraeg yn aml yn wynebu mynediad gwaeth at wasanaethau (cludiant, digidol, tai), sy'n golygu bod yn rhaid integreiddio hygyrchedd dwyieithog mewn cynllunio seilwaith.

[7] Gall y rhain fod yn gymunedau gwledig agos, rhwydweithiau cymdeithasol gwasgaredig mewn lleoliadau trefol, ac mewn cymunedau rhithwir sy'n ymestyn ar draws ardaloedd daearyddol.

Pwysleisiodd yr ymatebwyr hefyd bwysigrwydd ymgysylltu â'r Mentrau Iaith a chynllunwyr iaith lleol wrth wneud penderfyniadau rhanbarthol, er mwyn sicrhau bod anghenion ieithyddol cymunedol yn cael eu hystyried yn llawn ac nad ydynt yn cael eu hesgeuluso.

Ar y cyfan, mae sylwadau'r ymgynghoriad yn cefnogi barn Llywodraeth Cymru y gall y cynnig gefnogi cymunedau Cymraeg, ond mae'n rhaid integreiddio deilliannau o ran y Gymraeg yn elfennau craidd—nid ymylol—o’r cyflawni.

- **Sut bydd y cynnig yn effeithio ar addysg cyfrwng Cymraeg a dysgwyr Cymraeg o bob oedran, gan gynnwys oedolion (effeithiau cadarnhaol a/neu andwyol)?**

Tynnodd yr adborth i'r ymgynghoriad sylw at nifer o ystyriaethau o ran y Gymraeg sy'n cynnwys anghenion addysg a sgiliau sy'n berthnasol i'r cynnig:

- Cefnogaeth gref i ddatblygu gweithlu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, yn enwedig mewn sectorau twf megis diwydiannau gwyrdd, digidol a gofal. Argymhellodd yr ymatebwyr raglenni cenedlaethol ar gyfer hyfforddiant iaith B2+, prentisiaethau a chadw athrawon er mwyn cefnogi targedau Cymraeg 2050.
- Galwadau am fuddsoddiad mewn seilwaith addysg sy'n cynnwys mannau ar gyfer datblygu sgiliau Cymraeg, er mwyn caniatáu ehangu'r gweithlu cyfrwng Cymraeg.
- Cydnabyddiaeth bod angen cyfleoedd ymgysylltu â siaradwyr Cymraeg ifanc a arweinir gan eu hunaniaeth, yn enwedig y rhai sydd y tu allan i addysg ffurfiol, i sicrhau defnydd parhaus o’r iaith.

Er efallai na fydd y cynnig yn diwygio addysg yn uniongyrchol, gall gyfrannu drwy sicrhau bod unrhyw hyfforddiant, rhaglenni sgiliau, offer dysgu digidol neu weithgareddau allgymorth yn gwbl ddwyieithog ac yn cefnogi llwybrau cyfrwng Cymraeg ac yn cyfrannu at nod Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol o greu'r amodau cywir i'r iaith ffynnu.

- **Sut bydd y cynnig yn effeithio ar wasanaethau[8] sydd ar gael yn Gymraeg (effeithiau cadarnhaol a/neu andwyol)? (e.e. iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, cludiant, tai, digidol, ieuenctid, seilwaith, amgylchedd, llywodraeth leol ac ati)**

Roedd adborth yn pwysleisio'n gyson yr angen am ddylunio gwasanaeth dwyieithog rhagweithiol, gan atgyfnerthu mai:

[8] Nod Strategaeth y Gymraeg yw cynyddu'r ystod o wasanaethau a gynigir i siaradwyr Cymraeg, a gweld cynnydd yn y defnydd o wasanaethau Cymraeg.

- Rhaid i bob llwyfan digidol, rhyngwynebau cwsmeriaid, a systemau data fod yn ddwyieithog "o'r cychwyn".
- Dylai prosiectau a ariennir drwy'r cynnig gynnwys gallu i'r Gymraeg fel rhan annatod, nid ychwanegiad.
- Dylai fod digon o adnoddau ar gyfer darparu'n ddwyieithog, gan gynnwys amser, cyfieithu, capasiti gweithlu ac atebion technegol.
- Dylai prosesau caffael ymgorffori meini prawf Cymraeg i sicrhau bod cyflenwyr yn cyflawni'r safonau dwyieithog sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith.

Dangosodd ymatebion i'r ymgynghoriad hefyd y gallai fod angen cymorth cymesur ar sefydliadau llai i fodloni'r gofynion hyn—er enghraifft, templedi, enghreifftiau o arfer gorau, a deunyddiau canllawiau. Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn ac yn cytuno â sylwadau'r ymgyngoreion mewn perthynas â sicrhau y bydd yr holl wasanaethau a ddarperir drwy gyfrwng y cynnig yn ddwyieithog a hynny o fwriad, ac o ansawdd uchel.

- **Sut byddwch chi'n sicrhau bod pobl yn gwybod am wasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg ac yn gallu eu cyrchu a'u defnyddio mor hawdd ag y gallant yn Saesneg? Pa dystiolaeth / data rydych chi wedi'i ddefnyddio i lywio eich asesiad, gan gynnwys tystiolaeth gan siaradwyr Cymraeg neu grwpiau diddordeb Cymraeg?**

Pwysleisiodd yr ymatebwyr nad digon dim ond darparu gwasanaethau yn Gymraeg; Rhaid i bobl fod yn ymwybodol ohonynt, ymddiried ynddynt, a'u bod yn gallu manteisio arnynt yn hawdd. Roedd yr argymhellion yn cynnwys:

- Sicrhau bod y Gymraeg yn weladwy ac wedi'i normaleiddio ar draws cyfathrebu, brandio a negeseuon cyhoeddus.
- Defnyddio llwyfannau digidol dwyieithog (gan gynnwys sianeli'r cyfryngau cymdeithasol megis TikTok a YouTube) i gyrraedd cynulleidfaoedd iau.
- Casglu a chyhoeddi data ar y defnydd o'r Gymraeg a boddhad cleientiaid mewn gwasanaethau perthnasol, gan sicrhau tryloywder a gwelliant parhaus.

Bydd y sylwadau hyn yn llywio cyfathrebiadau'r cynnig a strategaethau mynediad at wasanaethau.

- **Pa dystiolaeth arall a fyddai'n eich helpu chi i gynnal asesiad arall?**

Nododd ymatebwyr yr ymgynghoriad sawl maes lle byddai tystiolaeth bellach yn cryfhau'r broses o wneud penderfyniadau:

- Mapio iaith i ddeall lle mae'r anghenion ieithyddol mwyaf.
- Data cymhwysedd Cymraeg gweithluoedd ar draws sectorau perthnasol.

- Rhagor o ymgysylltu â rhanddeiliaid Cymraeg a rhwydweithiau cymunedol.
- Integreiddio dangosyddion ieithyddol yn well i fframweithiau monitro (e.e., sgiliau gweithlu B1/B2, mesurau dyddiol o ddefnydd o'r Gymraeg).

- **Sut y byddwch chi'n gwybod bod eich polisi'n llwyddiant?**

Adlewyrchu'r adborth ymgynghori a barn Llywodraeth Cymru ar fonitro a mesurau gwerthuso, llwyddiant yn cynnwys:

- Tystiolaeth o ragor o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, yn enwedig mewn gweithleoedd, lleoedd cymunedol, a gwasanaethau cyhoeddus.
- Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg ar draws pob gweithgaredd a ariennir.
- Lefelau defnydd a bodlonrwydd ar gyfer gwasanaethau cyfrwng Cymraeg a ddarperir.
- Monitro fframweithiau sy'n cofnodi defnydd iaith go iawn, nid cydymffurfiaeth weithdrefnol.
- Dangos cydlyniad â Chymraeg 2050 a strategaethau hyrwyddo iaith lleol.